# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
# COFNODION – CYFARFOD TACHWEDD 2021

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 17eg o Dachwedd, 2021** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Blynyddol y Cyngor gyda Chyfarfod Misol I ddilyn** |
| **LLEOLIAD** | **Clwb Mountain Rangers** |
| **CADEIRYDD** | **Jason Hunt** |

## 1. CROESO

Croesawodd HR yr aelodau i'w gyfarfod diwethaf fel Cadeirydd. Dymunodd wellhad buan I AMJ sydd wedi bod yn yr Ysbyty yn cael triniaeth i symptomau Covid hefyd I EE sydd hefyd yn dioddef.

**Yn bresennol w.y.w:** Gwilym Williams (GW), Gwilym Thomas (GT), Tom Ellis (TE), Alan Hughes (AH), a Gillian Wynne Thomas (Clerc).
**Yn bresennol ar lein:** Nerys Evans (NE),

## 2. YMDDIHEURIADAU

Jason Hunt (JH), Michelle Williams (MW), Aeron Jones (AJ) , Elin Evans (EE), Peter Roberts (PR).

## 3. DATGAN BUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad

## 4. CYFARFOD BLYNYDDOL

a) **ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**
Derbyniwyd cadarnhad gan JH cyn y cyfarfod y bydd yn fodlon cadeirio.
Cynigiodd GT I Peter Roberts gael ei ethol fel Is Gadeirydd. Eiliodd GW a chytunodd pawb.

b) **ETHOL AELODAU AR YR IS-BWYLLGORAU**

Cynigiodd GT I Alan Hughes dderbyn y sedd wag ar Bwyllgor Gweinyddol a Chyllid a Phwyllgor y Fynwent gyda GW yn eilio a AH yn cytuno. Cytunwyd bydd y Pwyllgorau yn parhau fel y canlyn

**PWYLLGOR GWEINYDDOL A CHYLLID**

- Jason Hunt
- Michelle Williams
- Aeron M Jones
- Alan Hughes

**PWYLLGOR Y FYNWENT**

- Gwilym Williams
- Nerys Evans
- Michelle Williams
- Gwilym Thomas
- Alan Hughes

Llofnodwyd gan ........................................................................ Dyddiad ..................................................................

**PWYLLGOR GOLEUADAU A LLWYBRAU**

- Tom Ellis
- Gwilym Thomas
- Elin Evans

c) **ENWEBU CYNRYCHIOLYDD PWYLLGOR ARDAL UN LLAIS CYMRU**

Cytunodd Huw Rowlands I barhau fel cynrychioled Un Llais Cymru

d) **ENWEBU CYNRYCHIOLYDD AR GORFF LLYWODRAETHWYR YSGOLION**

Cytunwyd bydd y gynrychiolaeth yn parhau fel y canlyn

- LLYWODRAETHWYR YSGOL RHOSTRYFAN - Nerys Evans
- LLYWODRAETHWYR YSGOL RHOSGADFAN - Peter Roberts
- LLYWODRAETHWYR YSGOL FEIOLINYDD - Tom Ellis

e) **ENWEBU CYNRYCHIOLYDD AR BWYLLGORAU ERAILL**

Cytunwyd i barhau gyda'r trefniadau canlynol

- o CYNRYCHIOLYDD PWYLLGOR PENTREF RHOSTRYFAN - Jason Hunt
- o GRWP CYSWLLT CHWAREL MOEL TRYFAN - Gwilyn Thomas, Michelle Williams, Aeron Jones -

## 5. CADARNHAU COFNODION HYDREF 2021 A MATERION YN CODI

Gan nad oedd yn bosib I JH fod yn bresennol heno oherwydd pwysau gwaith cytunodd HR I barhau fel Cadeirydd am y noson. Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan AH ac eiliwyd gan NE.

a) **MYNWENT CEFNFAES The clerc reported that work was now completed in capturing the moles. As the usual custom had not been adopted for evidence of capture the clerc to make other arrangement for the future.**

Tyrchod - Adroddodd y Clerc bob y gwaith i wared a'r tyrchod bellach wedi cwblhau. Gan nad oedd arferiad arferol wedi ei fabwysiadu ar gyfer tystiolaeth y clerc i wneud trefniadau neilltuol i'r dyfodol.
Trin eiddew - Adroddodd y clerc nad oedd y gwaith I drin yr eiddew wedi cychwyn hyd yn hyn. Esboniodd bod Ifan Williams wedi cael codwm gyda quad ar y fferm. Dymunodd yr aelodau wellhad buan iddo.

b) **CAIS AM NAWDD**

Derbyniwyd cais gan Brif Athrawes Ysgol Rhosgadfan I'r Cyngor noddi plant lleiaf addawol yr ysgol gyda'r pwrpas eu galluogi i gofrestru a Chlwb Pêl Droed Mountain Rangers.
Cynigiodd MW welliant i'r cais a bod y Cyngor hefyd yn cytuno i noddi plant lleiaf addawol Ysgol Rhostryfan a Felinwnda yn ogystal. Trafodwyd sut fuasai posib didoli a gweithredu hyn.
Cynigwyd gwelliant pellach gan AMJ I'r Cyngor gysidro yn hytrach noddi holl blant Ward Llanwnda gan dalu hanner y gost cofrestru gyda'r Clwb Pêl Droed.
Cytunwyd gohirio'r mater am fis arall gan fod AMJ wedi bod yn yr ysbytu i'w alluogi i wella a gwneud ymchwiliadau gyda'r Clwb a'r Ysgolion.

c) **YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AIL GARTREFI A LLETY GWYLIAU**


*Clerc Cygnor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

| | |
|---|---|
| | Nid oedd posib cwblhau ymatebion ar gyfer yr ymgynghoriad fis Hydref oherwydd diffygion technegol. Trafodwyd yr ymatebion ymhellach. Y clerc i'w hanfon ymlaen.<br><br>**a)** **<u>TE – GOLEUADAU GER PITIAN PATIAN</u>**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi ail yrru cwyn am y gordyfiant o gwmpas hen safle'r Goat, Llanwnda a chais am oleuadau ychwanegol ger Pitian Patian. Derbyniwyd ymateb bydd y Cygnor yn cysylltu gyda stad y Goat i wneud trefniadau i'r gordyfiant cael eu torri a bydd asesiad pellach yn cael ei wneud parthed y goleuadau.<br><br>**b)** **<u>MW - CWYN AM LIFOGYDD</u>**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi gyrru'r lluniau a dderbyniwyd gan MW ymlaen gyda chŵyn i'r Cyngor Sir am y llifogydd, y gwair yn cael ei chwythu i ffosydd a chyflwr gwynet Lon Wen.<br>Esboniodd bydd y gwyn am y llifogydd ger Pont yr Afon yn cael ei ail gyfeirio at berchennog y tir. Roedd y Cyngor Sir wedi bod allan yn asesu'r broblem parthed y gwair yn cael ei chwythu i ffosydd a chyflwr y lon. Bydd yr Arolygwr Priffyrdd yn cadw golwg ar y sefyllfa fel rhan o'r rhaglen archwilio diogelwch ac yn gweithredu os/pan fydd angen.<br><br>**c)** **<u>GW – COED GER BRYN BETHEL, RHOSISAF</u>**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn ymateb bod y Cyngor Sir wedi bod allan yn asesu'r broblem. Nid yw'r mater yn cael ei ystyried fel un brys, ond mae trefniadau mewn lle i wneud y gwaith pan fydd adnodd ar gael. |
| 6. | **<u>MATERION MISOL</u>** |
| | a) **<u>ACHOS GORFODAETH: G21/0260 - AEL Y BRYN, RHOSGADFAN, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7LB</u>**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn gwybodaeth gan aelod bod podiau wedi eu codi er gwaethaf i'r Cais Cynllunio gael ei wrthod - roedd wedi gyrru blaen i'r Adran Gynllunio a'r ohebiaeth wedi ei gydnabod - byddent yn cysylltu ymhellach yn y dyfodol agos.<br><br>b) **<u>TYRCHOD DEAR MYNWENT CEFNFAES</u>**<br>Gweler 5 (c)<br><br>c) **<u>RHEILIAU DIOGELWCH CAE CHWARAE RHOSGADFAN</u>**<br>Adroddodd y Clerc bod y Cyngor Cymuned wedi cael hawl gan ymddiriedolwr y tir i osod y rheiliau. Adroddodd ymhellach bod Ian Morgan wedi cadarnhau bydd modd i'r Cyngor Sir ddarparu pris ar gyfer gosod y rheiliau diogelwch ond bydd rhaid cadarnhau pa fath bydd ei angen. Awgrymodd bydd cyfarfod safle gydag aelod yn fuddiol cyn prisio'r gwaith. Gwirfoddolodd GT, y clerc i wneud y trefniadau perthnasol.<br><br>d) **<u>CYLCHFAN FINGER POST</u>**.<br>Roedd cwyn wedi ei dderbyn gan EE fis Hydref am gyflwr difrifol y gylchfan yn dilyn gwaith ar y A487. Adroddodd y clerc ei bod wedi gyrru'r gwyn ymlaen I Gyngor Gwynedd a newydd dderbyn gwybodaeth bod y gylchfan o dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru.<br>Ni fydd cylchfan Finger Post yn trosglwyddo drosodd i Gyngor Gwynedd hyd nes mae'r ffordd osgoi Bontnewydd / Caernarfon yn agor.<br>Y clerc i ail gyfeirio'r gwyn i'r Llywodraeth. |
| 7. | **DERBYN ADRODDIADAU** |
| | e) **<u>BINIAU HALEN WARD LLANWNDA</u>**<br><br>Roedd MW a'r Clerc wedi bod allan yn ystod y mis yn archwilio'r buniau halen, feu darganfwyd fel y cynlyn: |

Llofnodwyd gan ………………………………………………………………….. Dyddiad ……………………………………………………………

*Clerc Cygnor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

| Rhif Ffordd Client | Enw Ffordd | Pellter (m) | Lleoliad / Cod | Cyflwr y bin (e.g. da / gwael / dim caead / etc) |
|---|---|---|---|---|
| 45 | Lôn Gors Goch, **Rhosgadfan** | 761 | Tanrallt | OK - GWAG |
| | | -- | Nr. Bryn Goleu | MALU - GWAG |
| -- | Lon Garreg Wen, **Rhosgadfan** | -- | Nr. Capel Hermon | OK - GWAG |
| 47 | Lôn Ty'n Twll, **Rhosgadfan** | 105 | Nr Maen Gwyn<br>Opp. Tan y Ffordd | DWR - GWAG<br>TWLL - GWAG |
| -- | Lon Pwmp, **Rhosgadfan** | -- | o/s Tai Bron Eryri<br>o/s Bryn Ffridd – top junction | OK - GWAG<br>OK - GWAG |
| -- | Llwyn, **Rhosgadfan** | -- | o/s Bryn Arfon<br>opp. Y Dreflan | OK - GWAG<br>OK - GWAG |
| -- | Stad Gwelfor, **Rhosgadfan** | -- | o/s no.4 | OK - GWAG |
| 45 | Lon Tangaer, **Rhosgadfan** | -- | opp Pen yr Allt | MALU - GWAG |
| -- | Bro Cadfan, **Rhosgadfan** | -- | o/s Glasfryn | DIFLANNU |
| -- | Bro Wyled, **Rhostryfan** | -- | Nr surgery / primary school | OK - GWAG |
| -- | Tan yr Allt, **Rhostryfan** | -- | @ top of estate | OK - GWAG |
| -- | Lon Dolwar, **Rhos Isaf** | --<br>-- | o/s Rhandir<br>@ Blaen y Waen<br>@ Dolwar Fechan | DIFLANNU<br>DIFLANNU<br>OK - GWAG |

Adroddodd y clerc bod Pennaeth yr Adran Briffyrdd bellach wedi cadarnhau bydd y Cyngor Sir yn cyflawni addewid i lenwi biniau halen y ward am y flwyddyn gyfredol gyda bwriad i wneud trefniadau mwy ffafriol yn y dyfodol ond bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned archebu ac ail sefydlu biniau newydd yn lle'r rhai sydd wedi torri neu ddiflannu.

Nid oedd yr aelodau yn fodlon i dderbyn y wybodaeth. Cytunwyd cafwyd y buniau yn wreiddiol ei sefydlu gan y Cyngor Sir ac nid oedd y Cyngor Cymuned wedi mabwysiadu unrhyw gyfrifoldeb amdanynt. . Y clerc i gysylltu nôl i adrodd hyn.

8. **MATERION CYNLLUNIO**


*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

| | |
|---|---|
| | **a)** **RHIF CAIS/APP REF: C21/1080/24/DT - CAMLAN, RHOSGADFAN, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7ET**<br>Dymchwel lolfa haul presennol a chodi estyniad unllawr at gefn y tŷ annedd<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau na gwrthwyebiad.<br><br>**b)** **RHIF CAIS/APP REF: C21/1078/24/LL - 8 GWELFOR, RHOSGADFAN, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7HA**<br>Dymchwel wal blaen a chreu man parcio at flaen y tŷ annedd<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau na gwrthwynebiad.<br><br>**c)** **RHIF CAIS/APP REF: C21/1077/24/LL - WAEN BANT, RHOSTRYFAN, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7LU**<br>Codi sied newydd<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau na gwrthwynebiad. |
| 9. | **MATERION ARIANNOL** |

**a)** **CYSONIAD**

Adolygwyd a cymeradwywydy cysoniad gyda AH yn cynnig ei gywirdeb ac NE yn eilo, cytunodd pawb.

**b)** **DATGANIADAU BANC**

**Cyfrif Cyfredol – 29 o Fedi – 28 o Hydref 2021**

| **BALANS CYCHWYN -** | | **£4,481.50** |
|---|---|---|
| **RHIF SIEC** | **TALIADAU** | **DERBYNIADAU** |
| 101620 | **250.00** | |
| 101633 | **150.00** | |
| Claddedigaeth | | **1,000.00** |
| 101631 | **575.00** | |
| 101632 | **204.00** | |
| **BALANS CAU –** | | **£4,302.50** |

**Cyfrif Cadw – 29 o Fedi – 28 o Hydref 2021**

| **BALANS CYCHWYN -** | **£73,338.30** |
|---|---|
| | **DERBYNIADAU** |
| | |
| **BALANS CAU** | **£73.339,90** |

**c)** **TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | |
|---|---|---|
| 101634 | Cyflog a threuliau Clerc | **575.00** |
| 101635 | Phillip Griffith (Tyrchod) | **50.00** |
| 101632 | Wyn Williams (torri gwair) | **2,557.50** |

| | |
|---|---|
| 10. | **GOHEBIAETH** |

Llofnodwyd gan ……………………………………………………………………. Dyddiad ……………………………………………………………

*Clerc Cygnor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

| | |
|---|---|
| | **a) CYNHADLEDD DWRISTIAETH CYNLLUN ECONOMI YMWELD ERYRI 2035**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>**b) AROLWG CYNGHORWYR - RÔL A CHYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYNGHORWYR YNG NGHYMRU**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>**c) CRICIETH CREADIGOL AR Y RHESTR FER AR GYFER GWOBRAU BYWYDAU CREADIGOL 2021**<br>Y clerc i yrru cefnogaeth ymlaen<br><br>**d) YMGYNGHORIAD AR YR YMCHWILIAD I AIL GARTREFI**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau<br><br>**e) ADRODDIAD ADOLYGU DRAFFT - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau<br><br>**f) AROLWG ADRAN 47 CYFARFODYDD AML-LEOLIAD**<br>Y clerc i baratoi ymateb ar ran y Cyngor<br><br>g) **BECYNNAU CADWCH GYMRU'N DACLUS**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>**h) GRANT OED GYFEILLGAR**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| 11. | **MATERION LLEOL** |
| | **a) AH - LLIFOGYDD O ROSTRYFAN I FFRWD CAE DU**<br>Rhannodd AH bryderon am y llifogydd diweddar, cytunodd yr aelodau eu bod wedi gwaethygu yn sylweddol. Trafodwyd dreiniau anaddas a budur a ffosydd wedi gordyfu. Teimlad ar y cyd yw eu bod yn fater diogelwch i fodurwyr yn enwedig yn ystod y gaeaf a rhew.<br>Y clerc i ofyn i'r Cyngor Sir wneud asesiad rheolaidd a darparu unrhyw waith sydd ei angen i osgoi llifogydd pellach.<br><br>**b) AH - CWYN AM GERRIG YN ARBED CERDDWYR DDEFNYDDIO GIATIAU AR LWYBR BRYN GWYN**<br>Adroddodd AH cwynion wedi ei dderbyn gan drigolion Rhostryfan – nodwyd bod y gwyn wedi ei adrodd i'r Cyngor Sir yn ystod y misoedd diwethaf – y clerc i ail adrodd i'r Cyngor Sir.<br><br>**c) FANIAU YN PARCIO YN BERYG GER 3 A 4 BRO WYLED RHOSTRYFAN**<br>Adroddodd AH bod faniau yn cael ei pharcio ac y creu materion diogelwch i blant y pentref ar lecyn o wair gyferbyn a'r anheddau - y clerc i'w adrodd i'r Cyngor Sir.<br><br>**d) GW – BRIGAU COED Y CREU MATERION DIOGELWCH**<br>Adroddodd GW bod brigau yn hongian i'r lon o dir Tai'r Onnen, Rhosisaf I lon gul ar dro peryg ac angen glanhau sawdl y wal yn rhedeg at Rhiwen - y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir.<br><br>**e) GT - ADWY GER MYNWENT RHOSGADFAN I GAE TŶ CADFAN**<br>Adroddodd GT ei fod wedi gwneud cwyn ond heb dderbyn unrhyw ddiweddariad am adwy wedi ei hagor heb ganiatâd ar y tir uchod. Nodwyd bod y gwyn wedi ei wneud ers dwy flynedd. - Y clerc i ofyn i'r Adran Gynllunio am ddiweddariad. |
| 12. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – 20fed o Ionawr – Clwb Mountain Rangers** |

Llofnodwyd gan ………………………………………………………………….. Dyddiad ………………………………………………………….

*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*